**Polisi Cofebau | Memorials Policy**

Mabwysiadwyd y Polisi | Policy adopted: 26-09-2022
Adolygwyd a ddiwygwyd | Reviewed and amended:

Mae Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (CCLlME) yn derbyn ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno coffáu anwyliaid a/neu ddigwyddiadau drwy osod placiau ar feinciau neu strwythurau eraill neu blannu coeden neu rywbeth tebyg o fewn ffiniau CCLlME.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd ceisiadau'n cael eu hystyried a'r telerau ac amodau pan fydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo ar gyfer ardaloedd o fewn ffiniau CCLlME.

Nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar gyfer darparu meinciau cyhoeddus neu feinciau coffa, er y derbynnir eu bod yn darparu amwynder cyhoeddus defnyddiol a gwerthfawr a'u bod hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan yr unigolion a'r teuluoedd sy'n gwneud y ceisiadau.

Mae'r polisi hwn yn cydnabod yr angen am broses cyson o ystyried ceisiadau am gofebion i'w gosod mewn mannau agored cyhoeddus. Mae hefyd yn cydnabod y gallai'r galw am gofebion fod yn llawer mwy nag y gall rhai ardaloedd daearyddol ymdopi ag ef, a gallai gynnwys ceisiadau am gofebion nad ydynt yn addas â'r ardaloedd cyfagos.

**Egwyddorion polisi:**

Defnyddir yr egwyddorion canlynol wrth ystyried ceisiadau a gwneud penderfyniadau am gofebion a byddant hefyd yn nodi egwyddorion y math o gofeb i'w chymeradwyo, y lleoliad a chynnal a chadw ac ailosod yn y dyfodol.

1. Rhaid i'r math o gofeb y gofynnir amdani fod yn addas i'r ardal y mae i'w gosod.

2. Bydd ceisiadau am feinciau/strwythurau ychwanegol neu goed ac ati yn cael eu hystyried ar safleoedd lle gellir cynnwys eitemau ychwanegol yn rhesymol a neu lle

Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLlME) receives requests from members of the public who wish to commemorate loved ones and or events by placing plaques on bench seating or other structures or planting a tree or something similar within CCLlME boundaries.

This policy sets out how requests will be considered and the terms and conditions where requests are approved for areas within CCLlME boundaries.

There is no legislative requirement for the provision of public or memorial benches, although it is accepted that they provide a useful and valued public amenity and also valued by the individuals and families who make the requests.

This policy recognises the need for a consistent approach to the provision of memorial requests to be placed in public open spaces. It also acknowledges that the demands for memorials may be far greater than some geographical areas can accommodate and may include requests for memorials which are not in keeping with the surrounding areas.

**Policy principles:**

The following principles will be applied in considering requests and making decisions for memorials and will also set out the principles of the type of memorial to be approved, the location and future maintenance and replacement.

1. The type of memorial requested must be in keeping with the area that it is to be placed.

2. Requests for additional benches/structures or trees etc. will only be considered at sites where these additional items can be accommodated reasonably and or where

byddai CCLlME yn ceisio cynyddu'r niferoedd presennol beth bynnag. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gynorthwyo gan unrhyw gynlluniau rheoli safle-benodol.

3. Mewn lleoliadau lle bydd nifer o feinciau yn yr un ardal, ni chynigir mwy na 50% fel lleoliad ar gyfer mainc goffa. Mae hyn er mwyn atal yr ardal rhag cymryd naws gardd goffa bwrpasol a allai amharu ar fwynhad y gofod ar gyfer gweithgareddau hamdden gyffredinol.

4. Bydd y lleoliad yn cael ei ddewis i leihau gwaith cynnal a chadw a fandaliaeth yn y dyfodol. Fel arfer ni fydd lleoliadau anghysbell gyda mynediad gwael ar gyfer cynnal a chadw a defnyddwyr yn cael eu hystyried.

5. Bydd cost lawn y gofeb newydd ynghyd â'i gosod yn cael eu talu'n llawn gan yr ymgeisydd, lle cytunir ar adnewyddu yna bydd cost lawn y gwaith adnewyddu yn cael ei dalu gan yr ymgeisydd.

6. Bydd yr ymgeisydd yn darparu'r plac coffa i ddyluniad, maint a thestun a gytunwyd ymlaen llaw.

7. Ni fydd gan yr ymgeisydd unrhyw hawliad perchnogaeth i'r eitem ac ni fydd caniatáu i wneud unrhyw newidiadau i'r eitem ar ôl gosod. Ni fyddant yn cael gosod unrhyw gofebion neu gofebion ychwanegol ar y safle boed dros dro neu barhaol.

8. Bydd CCLlME yn cynnal yr eitem yn yr un modd ag y mae'n gwneud eitemau tebyg yn y cyffiniau.

9. Ni fydd CCLlME yn gyfrifol am amnewid yr eitem lle mae wedi cyrraedd diwedd ei hoes naturiol, am ei hamnewid oherwydd traul arferol, neu amnewid eitem o ganlyniad i ddifrod boed yn ddamweiniol neu'n fwriadol.

10. O bryd i'w gilydd bydd CCLlME yn gosod safonau mewn perthynas ag eitemau penodol a bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â'r safonau hyn. (e.e. deunyddiau adeiladu a ddefnyddir ar gyfer meinciau, costau cynnal a chadw a gwydnwch, lliw ac ati)

CCLlME would seek to increase the existing numbers in any event. This decision will be aided by any site specific management plans.

3. In locations where there will be several benches in the same area, no more than 50% will be offered as a placement for a memorial bench. This is to prevent the area taking on the ambience of a dedicated memorial garden which may compromise the enjoyment of the space for general recreational activities.

4. The location will be chosen to minimise future maintenance and vandalism. Remote locations with poor access for maintenance and users will not normally be considered.

5. The full cost of a new memorial together with installation will be borne in full by the applicant, where a refurbishment is agreed then the full cost of the refurbishment will be borne by the applicant.

6. The applicant will provide the memorial plaque to a pre agreed design, size and text.

7. The applicant will have no claim of ownership to the item and will not be permitted to make any changes to the item after installation. Neither will they be allowed to place any additional mementoes or memorials at the site whether temporary or permanent.

8. CCLlME will maintain the item in the same way as it does similar items in the vicinity.

9. CCLlME will not be responsible for replacing the item where, it has reached the end of its natural life, replacement due to normal wear and tear, or for replacement as a result of damage whether accidental or wilful.

10. CCLlME will from time to time set standards in respect of specific items and requests will be considered in line with these standards. (e.g. construction materials used for benches, maintenance costs and durability, colour etc.)

11. O bryd i'w gilydd gellir gofyn am eitem unigryw yn hytrach na safonol fel cofeb. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen cyflwyno manylion y gwaith adeiladu, y deunyddiau a'r manylebau i CCLlME i'w hystyried fel rhan o'r broses gymeradwyo.

12. Bydd ceisiadau i adnewyddu strwythurau presennol yn ogystal ag am eitemau newydd sbon yn cael eu hystyried ac fel rhan o'r broses bydd CCLlME yn penderfynu os nai adnewyddu neu ddarpariaeth newydd yw'r mwyaf priodol ar gyfer pob cais.

13. Gofynnir i ymgeiswyr sydd â chymeradwyaeth ddod i gytundeb gyda CCLlME yn nodi telerau ac amodau'r gofeb. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon cytuno i'r telerau ac amodau, caiff ei gais ei wrthod.

14. Lle bo'n briodol bydd CCLlME yn gosod terfynau uchaf ar gyfer cofebion, a gall y rhain fod yn berthnasol i leoliadau unigol, mathau o gofeb, nifer o osodiadau mewn cyfnod o amser, enghreifftiau yw'r rhain ac nid rhestr gynhwysfawr.

15. Mae CCLlME yn cadw'r hawl i wrthod cais.

**Penderfyniad polisi cyfredol ac ateb safonol:**

Ar hyn o bryd mae gennym lefel uchel o geisiadau am gofebion. Oherwydd hyn, ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau newydd ar hyn o bryd. Ymddiheurwn am unrhyw siom y mae hyn yn ei achosi.

Rydym yn edrych ar opsiynau eraill ar gyfer cofebion, fodd bynnag ar hyn o bryd, nid oes modd i weithredu yn y dyfodol agos.

11. Occasionally a unique rather than standard item may be requested as a memorial. In these circumstances, details of the construction, materials and specifications will need to be submitted to CCLlME for consideration as part of the approval process.

12. Requests to refurbish existing structures as well as for brand new items will be considered and as part of the process CCLlME will determine whether refurbishment or new provision is the most appropriate for each request.

13. Applicants who have approval will be asked to enter into an agreement with CCLlME setting out the terms and conditions for the memorial. Where an applicant is unwilling to agree to the terms and conditions then their request will be refused.

14. Where appropriate CCLlME will set maximum limits for memorials, and these may apply to individual locations, types of memorial, number of installations in a period of time, these are examples and not an exhaustive list.

15. CCLlME reserves the right to refuse an application.

**Current policy decision and standard reply:**

We currently have a high level of applications for memorials. Because of this, we are not able to accept any new requests at present. We are sorry for any disappointment this causes.

We are looking at other options for memorials, however no capacity currently exists to action in the near future.